# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Gwilym Jones, Dylan Rees<br><br>**Yr Enwadau Crefyddol**<br><br>Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)<br>Y Parch. Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br><br>**Cynrychiolwyr Athrawon**<br><br>Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch) |
| **WRTH LAW:** | Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr Cynradd, Addysg) (Clerc y CYS)<br>Mr Phil Lord (Ymgynghorydd AG Annibynnol)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeiryddd)<br>Y Cynghorydd Keith Roberts<br>Mrs Elaine Green (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)<br>Mr Edward Morus Jones (Undeb Annibynwyr Cymru)<br>Y Parch Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y CYS a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol:-

**Materion yn codi o'r cofnodion: -**

- Nodwyd bod Crynodeb y Cadeirydd wedi'i gynnwys yn Adran 1.1 o Adroddiad Blynyddol y CYS a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.
- Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd ei fod wedi diweddaru'r templed hunanarfarnu a gyflwynwyd yn yr adroddid er mwyn cynnwys elfennau ychwanegol yn ymwneud ag adroddiadau Adran 50, a byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymweliadau ysgol nesaf.

- Cadarnhawyd bod ymweliad ag Ysgol y Graig, Llangefni wedi'i threfnu ar gyfer aelodau'r CYS, a byddant yn ymweld ag Ysgol Gyfun Llangefni maes o law.
- Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd ei fod wedi cysylltu â Jenny Downs o'r Eglwys yng Nghymru i ofyn am ganiatâd er mwyn i'r CYS gynnwys adroddiadau Adran 50 yr Eglwys fel rhan o arfarniadau'r CYS o arolygiadau ysgolion.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Uwch Reolwr Cynradd gysylltu â chynrychiolydd yr Eglwys Gatholig ar y CYS i drafod newidiadau i'r templed adroddiadau Adran 50.**

- Gwahoddwyd Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Throseddau Casineb Heddlu Gogledd Cymru i gyfarfod y CYS ym mis Chwefror. Yn anffodus, nid oedd y swyddog yn gallu bod yn bresennol, ond bydd yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod nesaf y CYS ym mis Gorffennaf.

Holodd aelod a oedd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi codi'r mater o sedd wag ar y CYS gyda'r Arweinydd Grŵp perthnasol. Cadarnhawyd bod y Pennaeth Democratiaeth wedi siarad â'r Arweinydd Grŵp, ond ni chafwyd enwebiad hyd yn hyn.

## 3 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

(a) Cyflwynodd Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fideo a gyhoeddwyd gan Gymdeithas CYSAGau Cymru. Mae'r fideo'n esbonio i ysgolion diwyg posib Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm newydd. Mae'r fideo'n canolbwyntio ar archwilio'r cwestiynau mawr am y dyfodol, ein byd a'r bobl sy'n byw ynddo. Roedd yn dangos hefyd sut y mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein helpu i ddatblygu ein credoau a'n gwerthoedd ein hunain, a'n hymateb gwybodus mewn byd sy'n newid yn barhaus.

Roedd y CYS yn canmol y fideo a nododd ei fod yn crynhoi'r prif themâu yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Dywedodd cynrychiolydd athrawon y CYS y byddai'n fodel gwych ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau a dywedodd y byddai'n defnyddio'r fideo yn ei gwersi. Roedd y CYS o'r farn y byddai'r pynciau y cyfeirir atynt yn y fideo yn arwain at godi cwestiynau difyr. Nododd hefyd fod fideo Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd y byddai dolen i'r fideo ar gael ar SharePoint, y bwletin ysgolion, ac y byddai'n cael ei drafod yn y Fforwm Strategol Cynradd.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Uwch Reolwr Cynradd yn rhannu dolen i fideo Cymdeithas CYSAGau Cymru gydag ysgolion.**

(b) Nododd Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y CYS fod y 'Prosiect Llais yr Athro: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru' yn brosiect Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan Gymdeithas CYSAGau Cymru sydd wedi'i anelu at athrawon yng Nghymru. Dywedodd y byddai'r arolwg yn gofyn am farn athrawon ynglŷn â sut y mae'r cwricwlwm newydd wedi cael ei dderbyn, ei ddeall a'i weithredu yn yr ysgolion. Gofynnwyd i'r Awdurdod Lleol hyrwyddo'r holiadur

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn i Gymdeithas CYSAGau Cymru gynnal ymchwil ar y Cwricwlwm yng Nghymru ar ôl derbyn adborth o’r holiaduron.

**PENDERFYNWYD y byddai’r Uwch Reolwr Cynradd yn hyrwyddo’r ‘Prosiect Llais yr Athro’ yn y bwletin ysgolion, mewn trafodaethau wyneb yn wyneb ac mewn fforymau strategol.**

## 4 EITEMAU CENEDLAETHOL AR GREFYDD GWERTHOEDD A MOESEG - BETH SY'N NEWYDD I RESTR CHWARAE LLYWODRAETHWYR?

Nododd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg bod y Rhestrau Chwarae i Lywodraethwyr yn adnodd defnyddiol iawn ar gyfer cynrychiolwyr Fydd a Chred ac aelodau. Atgoffwyd aelodau’r CYS sut i ddod i hyd i’r rhestrau chwarae dwyieithog ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod y modiwl i gefnogi dealltwriaeth Llywodraethwyr o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cyfeirio at le Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, a’r rhesymeg tu ôl i hynny, a pham fod enw’r pwnc wedi newid o Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Awgrymodd yr Uwch Reolwr Cynradd y dylid cynnwys y Rhestr Chwarae newydd i Lywodraethwyr ar y Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr a threfnu sesiwn hyfforddi ar y thema ar gyfer Llywodraethwyr ysgol. Ystyriwyd hefyd yr opsiwn o gyflwyno’r Rhestr Chwarae i Lywodraethwyr mewn sesiwn briffio aelodau hefyd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn cynnwys y Rhestr Chwarae newydd i Lywodraethwyr ar y Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr.**
- **Cynnal sesiwn hyfforddiant ar y Rhestr Chwarae i Lywodraethwyr a chynnwys y Rhestr Chwarae fel gweithred ar gyfer y sesiynau briffio aelodau.**

## 5 CREFYDD, GWERTHOEDDA MOESEG GORFODOL - CYFLWYNIAD I PENAETHIAID UWCHRADD

Nododd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Môn wedi derbyn y cyflwyniad yn ddiweddar, er mwyn eu hatgoffa am agwedd orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dywedodd fod y cyflwyniad wedi’i baratoi oherwydd bod athrawon yn holi a oedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn statudol yn CA4, ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod y Cwricwlwm i Gymru wedi’i gyflwyno yn 2022, a’i gyflwyno fesul cam i wahanol oedrannau, gan ddechrau gyda disgyblion ym Mlwyddyn 7, ac yna Blynyddoedd 8 a 9. Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 y flwyddyn nesaf, ac yna Blwyddyn 11.

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg grynodeb manwl o’r pwyntiau canlynol: -

- Crynodeb o ddeddfwriaeth;
- Statws gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Credoau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol;
- Mae'r hawl i ddileu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16 wedi cael ei ddileu;
- Dylunio eich cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Datblygiad ysbrydol;
- Y lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Canllawiau Addysg Grefyddol ar gyfer plant 14 – 19 oed;
- Cymwysterau Cenedlaethol – Sgiliau Bywyd.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adborth gan Benaethiaid sydd wedi gweld y cyflwyniad yn gadarnhaol. Dywedodd bod llawer o frwdfrydedd ynglŷn â'r cwricwlwm ym Mlynyddoedd 10 ac 11 ar hyn o bryd.

Mynegodd cynrychiolydd athrawon y CYS bryder ynglŷn ag amseru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm a chyflwyno'r TGAU newydd, gan y bydd y ddau'n cael eu cyflwyno ym mis Medi eleni. Dywedodd hefyd fod angen i athrawon yn ysgolion Môn gydweithio a chefnogi ei gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod Penaethiaid Ynys Môn wedi cytuno y byddai'r Penaethiaid Adran yn dod at ei gilydd i drafod hyn yn fwy manwl. Nodwyd y bydd angen hysbysu disgyblion ynglŷn â phwrpas y cwrs TGAU newydd a bydd angen i athrawon gyfleu'r neges honno.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 6 CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG A'R CWRICWLWM I GYMRU - CYFLWYNIAD I ATHRAWON CYNRADD

Cafwyd cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gynllunio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer athrawon a Phenaethiaid ysgolion cynradd. Dywedodd fod nifer o ysgolion cynradd yn ardal Caergybi wedi derbyn y cyflwyniad yn barod.

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg grynodeb cynhwysfawr o'r pwyntiau canlynol: -

- Disgyblaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Nodwyd bod y cyflwyniad ar gael yn ddwyieithog a byddai'n bosib recordio fersiwn Gymraeg i'w hanfon at ysgolion. Nododd yr Uwch Reolwr Cynradd y byddai'n hapus i recordio troslais.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn recordio fersiwn Gymraeg o'r cyflwyniad ar gyfer athrawon Cynradd.**

## 7 CYFLWYNIAD GAN HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Nodwyd nad oedd Einir Williams o Heddlu Gogledd Cymru'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, oherwydd salwch. Bydd yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod nesaf y CYS.

**PENDERFYNWYD gwahodd y Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Throseddau Casineb i fynychu cyfarfod nesaf y CYS ym mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyflwyniad ar ei gwaith gyda Heddlu Gogledd Cymru.**

## 8 UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYS

Mynegodd aelod o'r CYS bryder ynglŷn â hyfforddi athrawon Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y dyfodol oherwydd toriadau o ran addysgu Addysg Grefyddol, yn enwedig yn yr Adran Ddiwinyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y sefyllfa ddiweddaraf ym Mhrifysgol Bangor, lle mae enw'r ysgol wedi newid i Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas. Nodwyd mai Dr Gareth Evans-Jones yw'r unig ddarlithydd ym Mangor sy'n addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn anfon e-bost at Dr Gareth Evans-Jones er mwyn derbyn eglurhad ynglŷn â'r sefyllfa bresennol ym Mhrifysgol Bangor, a**
- **Bod Comisiynydd y Gymraeg a'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Cymru, Lynne Neagle, yn derbyn copi o'r e-bost.**

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y CYS yn cael ei gynnal ar 10 Gorffennaf 2024 am 2:00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:35 pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**